O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2014 Rhif 2938 (Cy. 299)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Ffordd Caergybi, Betws-y-Coed, Conwy) (Gwahardd Aros) 2014

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *31 Hydref 2014* |
| *Yn dod i rym* | *06 Tachwedd 2014* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd yr A5 o Lundain i Gaergybi ("y gefnffordd"), drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 1(1), 2(1) a (2) a 4(2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**) ("Deddf 1984"), ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Gogledd Cymru, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 06 Tachwedd 2014. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Ffordd Caergybi, Betws-y-coed, Conwy) (Gwahardd Aros) 2014.

**2.**—(1) Yn y Gorchymyn hwn—

mae i "bathodyn person anabl" ("*disabled person's badge*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 2 o Reoliadau Personau Anabl (Bathodynnau ar gyfer Cerbydau Modur (Cymru) 2000(**2**);

mae i "disg barcio" ("*parking disc*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 8(5) o Reoliadau Gorchmynion Traffig Awdurdodau Lleol (Esemptiadau ar gyfer Personau Anabl) (Cymru) 2000(**3**).

---

(**1**) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 84(2) gan adran 168 o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p.22) a pharagraff 61 o Atodlen 8 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atoden 11 I Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru of ran Cymru.
(**2**) O.S. 2000/1786.
(**3**) O.S. 2000/1785.

(2) At ddibenion y Gorchymyn hwn bernir bod cerbyd yn arddangos:

(a) bathodyn person anabl yn y lle perthnasol:

(i) yn achos cerbyd ac iddo ddangosfwrdd neu banel deialau, os yw'r bathodyn yn cael ei arddangos ar y dangosfwrdd neu'r panel deialau fel bod tu blaen y bathodyn yn eglur ac yn ddarllenadwy o'r tu allan i'r cerbyd, neu

(ii) yn achos cerbyd nad oes iddo ddangosfwrdd neu banel deialau, os yw'r bathodyn yn cael ei arddangos mewn lle amlwg yn y cerbyd neu arno fel bod tu blaen y bathodyn yn eglur ac yn ddarllenadwy o'r tu allan i'r cerbyd; a

(b) disg barcio yn y lle perthnasol:

(i) yn achos cerbyd ac iddo ddangosfwrdd neu banel deialau, os yw'r ddisg yn cael ei harddangos ar y dangosfwrdd neu'r panel deialau fel bod y cyfnod o chwarter awr pan ddechreuodd y cyfnod aros yn eglur ac yn ddarllenadwy o'r tu allan i'r cerbyd; neu

(ii) yn achos cerbyd nad oes iddo ddangosfwrdd neu banel deialau, os yw'r ddisg yn cael ei harddangos mewn lle amlwg yn y cerbyd neu arno fel bod y cyfnod o chwarter awr pan ddechreuodd y cyfnod aros yn eglur ac yn ddarllenadwy o'r tu allan i'r cerbyd.

(3) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

### Gwaharddiad

**3.** Ac eithrio fel a ddarperir yn erthygl 4, ni chaiff neb, ac eithrio yn ôl cyfarwyddyd neu â chaniatâd cwnstabl heddlu, swyddog cymorth cymunedol yr heddlu neu swyddog gorfodi sifil, beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd aros ar ochr de-orllewinol y darn hwnnw o Gefnffordd yr A5 o'r enw Ffordd Caergybi ym Metws-y-coed, Conwy sy'n ymestyn i gyfeiriad y gogledd-orllewin o bwynt 42 o fetrau i'r gorllewin o ganol ei chyffordd â Ffordd Vicarage hyd at bwynt 100 o fetrau i'r gorllewin o'r gyffordd honno.

### Esemptiadau

**4.** Ni fydd dim yn erthygl 3 yn ei gwneud yn anghyfreithlon i beri neu i ganiatáu i unrhyw gerbyd aros ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn y Gorchymyn hwn cyhyd ag sy'n angenrheidiol i alluogi:

(a) person i fynd i mewn i gerbyd, neu i ddod allan ohono;

(b) nwyddau i gael eu llwytho ar y cerbyd neu eu dadlwytho ohono;

(c) y cerbyd, os na ellir ei ddefnyddio'n hwylus at y diben hwnnw ar unrhyw ffordd arall, i gael ei ddefnyddio mewn cysylltiad ag unrhyw un neu ragor o'r gweithrediadau a ganlyn:

(i) gwaith adeiladu, gwaith diwydiannol neu waith dymchwel;

(ii) symud unrhyw rwystr i draffig;

(iii) cynnal a chadw, gwella neu ailadeiladu'r darnau hynny o'r ffordd; neu

(iv) gosod, codi, addasu neu atgyweirio, yn y darn hwnnw o'r gefnffordd, neu mewn tir cyfagos, unrhyw garthffos neu unrhyw brif bibell neu gyfarpar ar gyfer cyflenwi nwy, dŵr neu drydan neu unrhyw linell delegraffig fel y'i diffinnir yn Neddf Cyfathrebiadau 2003(**1**);

(d) y cerbyd, os na ellir ei ddefnyddio'n hwylus at y diben hwnnw ar unrhyw ffordd arall, i gael ei ddefnyddio yng ngwasanaeth awdurdod lleol neu awdurdod dŵr yn unol â phwerau neu ddyletswyddau statudol;

(e) y cerbyd i gymryd petrol, olew, dŵr neu aer o unrhyw garej ar y darn hwnnw o'r gefnffordd neu'n gyfagos ato;

(f) y cerbyd i gael ei ddefnyddio at ddibenion y frigâd dân, y gwasanaeth ambiwlans neu'r heddlu; neu

(g) y cerbyd i aros pan fo'r person sydd â rheolaeth arno'n gwneud y canlynol:

(i) pan fydd yn ofynnol yn ôl y gyfraith iddo stopio;

(ii) pan fydd yn gorfod stopio er mwyn osgoi damwain; neu

(iii) pan gaiff ei rwystro rhag mynd yn ei flaen gan amgylchiadau sydd y tu hwnt i'w reolaeth.

**5.** Ni fydd dim yn erthygl 3 yn ei gwneud yn anghyfreithlon i beri neu i ganiatáu i gerbyd person anabl sy'n dangos yn y lle perthnasol fathodyn person anabl a disg barcio (y mae'r gyrrwr, neu berson arall sy'n gyfrifol am y cerbyd, wedi nodi arnynt yr amser pan ddechreuodd y cyfnod aros) aros am gyfnod nad yw'n fwy na 3 awr, ar yr amod bod awr o leiaf yn gwahanu'r cyfnod hwnnw a chyfnod blaenorol y bu'r

---

(**1**) 2003 p.21.

un cerbyd yn aros ar yr un diwrnod ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn y Gorchymyn hwn.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiath, un o Weinidogion Cymru

Dyddiedig 31 Hydref 2014

*R Morgan*
**R MORGAN**
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau Llywodraeth Cymru